**Monitro**

**Ysgol Gynradd Pontfadog**
Pontfadog
Llangollen
Wrecsam

**Rhif yr ysgol: 6652143**

**Dyddiad yr arolygiad Adran 28: Tachwedd 2010**

Arolygwyd Ysgol Gynradd Pontfadog ym mis Tachwedd 2010 a barnwyd bod angen monitro gan Estyn arni. Cynhaliodd Estyn ymweliad monitro ym mis Chwefror 2012 yn canolbwyntio ar yr ystyriaethau allweddol a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28.

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Nid yw Ysgol Pontfadog wedi gwneud digon o gynnydd yn y meysydd allweddol ar gyfer gweithredu arnynt a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28 o'r ysgol ym mis Tachwedd 2010. Oherwydd hynny, ac yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### *Argymhelliad 1: Darparu tasgau sy'n cyfateb yn dda i alluoedd y disgyblion ac sy'n herio'r disgyblion sy'n cyflawni'n uwch*

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dull mwy hyblyg o fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy galluog. Mae cynlluniau'r athrawon yn dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o alluoedd unigolion yn eu dosbarthiadau. Maent yn dechrau ymgorffori meini prawf wedi'u gwahaniaethu yn eu cynlluniau i herio disgyblion â gallu uwch.

Yn 2011, roedd cynnydd yn nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol, yn enwedig lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant hwn i'w weld yn gyson mewn gwersi nac yn llyfrau'r disgyblion. Yn gyffredinol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac, yn aml, maent yn derbyn gwaith o safon wael sydd wedi'i gyflwyno'n wael. Mae gorddibyniaeth barhaus ar daflenni gwaith ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol yn golygu nad yw gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol wedi'i ddatblygu'n ddigon da.

***Argymhelliad 2: Sicrhau cysondeb yn ansawdd y marcio a hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am yr hyn mae angen iddynt ei wneud nesaf, gyda thargedau unigol cyraeddadwy a phenodol***

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae ansawdd marcio'r athrawon yn anghyson. Er bod gan y rhan fwyaf o wersi fwriadau dysgu clir, nid yw'r athrawon yn defnyddio'r rhain bob tro i asesu'n effeithiol yr hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Ambell waith, mae sylwadau cadarnhaol amhriodol yn rhoi camargraff i ddisgyblion o'r safonau maent yn eu cyflawni, yn enwedig yn eu gwaith ysgrifenedig. Lle mae sylwadau'r athrawon yn amlygu meysydd i'w gwella, nid yw'r athrawon yn dilyn y rhain â thrylwyrder digonol i ysgogi gwelliannau.

Mae'r ysgol wedi dechrau gosod targedau ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith y disgyblion hyd yn hyn. Nid yw'r athrawon yn defnyddio targedau'n ddigon da i osod disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad disgyblion mewn gwersi. Nid oes gan ddisgyblion syniad clir o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella.

***Argymhelliad 3: Parhau i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol***

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ac nid ydynt yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y ddau ddosbarth, hyd yn hyn. Mae cynlluniau'n amlygu bwriadau dysgu, ond nid yw'r athrawon yn rhannu'r rhain yn effeithiol â'r disgyblion bob tro i godi eu hymwybyddiaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni erbyn diwedd y wers. Mae'r defnydd o gwestiynau penagored yn datblygu, ond mae'n anghyson o ran sicrhau bod athrawon yn adeiladu ar fedrau llefaredd disgyblion a'u datblygu'n effeithiol. Nid yw strategaethau sy'n ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, fel 'partneriaid siarad', wedi'u diffinio'n dda yng nghynlluniau'r athrawon ac nid ydynt yn elfen gref mewn gwersi. Nid yw gallu disgyblion hŷn i gynnal hunanasesiadau ac asesu cyfoedion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

***Argymhelliad 4: Adolygu gweithdrefnau a pholisi diogelu'r ysgol ar frys a threfnu hyfforddiant priodol i'r holl staff***

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Aeth yr ysgol ati i adolygu ei pholisi a gweithdrefnau diogelu yn briodol yn ystod hydref 2011. Erbyn hyn, mae'r polisi'n cynnwys yr holl wybodaeth statudol ofynnol, gan gynnwys enwau'r ddau unigolyn penodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu. Mae pob aelod staff wedi cael hyfforddiant gan yr awdurdod lleol. Oherwydd hynny, maent yn ymwybodol o arwyddion gwahanol fathau o gamdriniaeth a pha gamau i'w cymryd.

***Argymhelliad 5: Gwella trylwyredd yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant, a mabwysiadu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion***

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae pob rhanddeiliaid yn rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae gan staff ddealltwriaeth well o ddata'r ysgol a sut i'w ddefnyddio i arfarnu perfformiad yr ysgol. Craffwyd ar waith disgyblion, arsylwyd dosbarthiadau a chynhaliwyd teithiau cerdded dysgu i godi ymwybyddiaeth arweinwyr a rheolwyr o safonau. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi defnyddio'r wybodaeth a gafwyd trwy hunanarfarnu yn ddigonol i wella cyflawniadau'r disgyblion.

Mae adroddiad hunanarfarnu cyfredol yr ysgol wedi'i seilio ar fframwaith Estyn. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon arfarnol. Nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar godi safonau ac nid yw'n amlygu meysydd i'w gwella yn ddigon clir i lywio cynllunio datblygu. Nid yw cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigonol ar y camau penodol sydd eu hangen i arwain at y gwelliannau gofynnol ac nid yw'n pennu targedau penodol a graddfeydd amser realistig.

Mae gan staff a llywodraethwyr ymwybyddiaeth well o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ond, hyd yn hyn, nid yw wedi cael effaith ddigonol ar strategaethau'r ysgol ar gyfer cynllunio gwelliannau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

A1 sicrhau y caiff disgyblion â gallu uwch eu herio'n briodol i gyflawni safonau uwch;

A2 gwella targedau unigol ac ansawdd marcio i roi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith;

A3 parhau i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol; a

A4 sicrhau bod hunanarfarnu'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau cyflawniad disgyblion.